

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL
14 MEDI 2023

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod o bell ddydd Iau, 14 Medi 2023.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Bill Crease, Chris Dolphin, Alasdair Ibbotson, Gina Maddison, Allan Marshall, Vicky Perfect, Kevin Rush, Sam Swash a Linda Thomas

DIRPRWY: Y Cynghorydd: Linda Thew (dros Jason Shallcross)

YMDDIHEURIAD: Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd y Cyngor)

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Christine Jones (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles), y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant a Chymunedau Cryf), y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol), y Cynghorydd David Healey (Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi), y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog (Llywodraethu), y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, y Rheolwr Corfforaethol (Rhaglen Gyfalaf ac Asedau) a'r Rheolwyr Cyllid Strategol.

Ar gyfer cofnodion rhif 24-25

Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg

Ar gyfer cofnodion rhif 26-27

Uwch Reolwr Gwasanaethau Tai ac Atal

HEFYD YN BRESENNOL: Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'r tîm

20. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Bernie Attridge gysylltiad personol â chofnod rhif 25 (perfformiad diwedd blwyddyn Cynllun y Cyngor 2022/23) yn ystod trafodaeth ar addasiadau i bobl anabl.

21. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2023, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Bill Crease ac Allan Marshall.

Materion yn Codi

Cofnod rhif 13: Pecynnau Gofal a Ariennir ar y Cyd – dywedodd y Cadeirydd fod yr anomaleddau yr holodd amdanynt yn y cyfarfod wedi eu cadarnhau wedyn gan yr Uwch Reolwr; h.y. y ffigwr a drawsosodwyd o'r adroddiad blaenorol a'r swm £12,223.39 ar anfoneb nad oedd wedi ei dalu.

Cofnod rhif 14: Monitro'r Gyllideb Refeniw a Monitro'r Rhaglen Gyfalaf 2022/23 (Sefyllfa Derfynol) – dywedodd y Cadeirydd, yn seiliedig ar y ffigwr a

ddyfynnwyd gan y swyddog, dylai cyllid y Cyngor elwa £36,000-£50,000 y flwyddyn o ganlyniad i'r gwaith a wneir gan y Pwyllgor i ostwng y ddyled sydd heb ei thalu ar gyfer parhau â pheccynnau gofal iechyd ar y cyd.

Cofnod rhif 18: Darparu gwasanaethau cyhoeddus yn yr 21ain ganrif – byddai'r Cadeirydd yn cysylltu â'r Prif Weithredwr ynglŷn â themâu ar gyfer adroddiadau'r dyfodol.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod cywir.

22. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfodydd blaenorol.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Allan Marshall ac fe'i heiliwyd gan y Cadeirydd.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

23. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Wrth gyflwyno'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol, cadarnhaodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer sesiwn i'r holl Aelodau ar waith Swyddfa'r Crwner.

Yn unol â chais gan y Cynghorydd Bernie Attridge, byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa bresennol Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol yn cael ei rhannu gyda'r Pwyllgor. Yn y cyfamser, gofynnwyd i'r Cynghorydd Attridge gysylltu â'r Rheolwr Corfforaethol (Rhaglen Gyfalaf ac Asedau) ynglŷn â mater a oedd yn benodol i ward.

O ganlyniad i gais gan y Cynghorydd Sam Swash, byddai adolygiad cyfnodol o berfformiad o ran y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cael ei drefnu.

Ar y sail honno, cynigwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr Bernie Attridge a Linda Thomas.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a
- (b) Rhoi awdurdod i Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

24. HUNANASESIAD CORFFORAETHOL 2022/23

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ar gynnydd Hunanasesiad Corfforaethol 2022/23, a oedd yn crynhoi adborth o ymgynghoriad ac ymgysylltiad â budd-ddeiliaid ar ganfyddiadau dadansoddiad yn ôl yr wyth thema. Diolchodd i Aelodau'r Pwyllgor am eu rhan yn y broses ddrafftio.

Amlinellodd Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg welliannau a wnaed i fodel yr hunanasesiad yn dilyn y cynllun peilot a gynhaliwyd ar gyfer 2021/22, a'r ystod o ymgynghoreion drwy gydol y broses dri cham. Yr oedd yr adroddiad terfynol yn dangos bod y Cyngor, ar y cyfan, wedi perfformio'n dda yn ôl yr asesiad, ac mae camau gweithredu'n cael eu cymryd ar hyn o bryd parthed y meysydd a nodwyd ar gyfer eu gwella. Yr oedd yr adroddiad hefyd yn manylu ar gynnydd meysydd i'w gwella a nodwyd o gynllun peilot 2021/22. Byddai'r adroddiad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn ei gymeradwyo'n derfynol gan y Cabinet.

Holodd y Cadeirydd a oedd y gweithdy ym mis Mehefin wedi bod yn agored i'r holl Aelodau, gan fod presenoldeb wedi bod yn isel. Eglurwyd bod cynrychiolwyr o'r Pwyllgor hwn, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet wedi eu gwahodd. Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd Diwylliant, Gwytnwch, Gwerthoedd a Moeseg – y cyfeiriwyd atynt yn ystod y gweithdy – a holodd a oedd y rhain wedi eu hadlewyrchu'n glir yn y ddogfen.

Ynglŷn â thema 'Ymgysylltu â Chwsmeriaid a'r Gymuned', galwodd y Cynghorydd Bernie Attridge am fwy o ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd ac Aelodau Etholedig, gan gynnwys drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd y dylai perchnogaeth gorfforaethol gael ei harwain gan uwch swyddogion, a bod darpariaeth cefnogaeth ar gyfer cwsmeriaid – er enghraifft, mewn swyddfeydd Sir y Fflint yn Cysylltu – angen ei hadolygu ar fyrder.

Wrth ymateb i sylwadau'r Cadeirydd, tynnodd Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg sylw at y meysydd a nodwyd i'w gwella lle'r oedd themâu'n ymwneud â diwylliant, gwerthoedd a moeseg yn nodi camau gweithredu i'w gwreiddio ledled y sefydliad a'u mesur yn briodol. Rhannwyd enghreifftiau o adroddiadau a pholisïau a oedd yn adlewyrchu gwytnwch cynyddol o fewn y Cyngor, a chynlluniau i ddatblygu diwylliant perfformiad drwy'r fframwaith.

Wrth gydnabod pwysigrwydd gwreiddio'r materion hynny ledled y sefydliad a'r strwythur, siaradodd y Prif Weithredwr am y gwaith a oedd yn mynd rhagddo i wella perchnogaeth gorfforaethol o ddarpariaeth gwasanaeth. Rhoddodd eglurhad am yr academi ar gyfer uwch arweinwyr, y cyfeiriwyd ati yn y ddogfen, a oedd yn un ffordd o roi dull gweithredu mwy unedig ar waith wrth ddarparu gwasanaeth ledled y Cyngor. Aeth yn ei flaen i ddweud yr arweinir diwylliant y Cyngor o'r top a dylanwedir arno gan ymddygiad swyddogion ac Aelodau, gyda'r nod o gael dull gweithredu cyson ar y cyd er mwyn gallu darparu gwasanaethau o ansawdd uchel.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Bill Crease y pwysigrwydd bod rheoli perfformiad yn cael ei lywio gan ymholi data er mwyn ceisio canolbwyntio ar feysydd lle mae tanberfformio; er enghraifft, y data diweddar a rannwyd am amseroedd ateb y ffôn yn y Ganolfan Gyswilt. Yn ystod y drafodaeth, atgoffwyd

yr Aelodau gan y Prif Swyddog (Llywodraethu) am y materion parhaus yr adroddwyd amdanynt yn rheolaidd a'r camau gweithredu corfforaethol a oedd yn cael eu cymryd i wella trosiant staff ledled y Cyngor.

Cydnabu'r Cynghorydd Linda Thew y disgwyliadau a'r galwadau a oedd ar y Ganolfan Gyswllt, ac fe'i sicrhawyd bod dewisiadau'n cael eu harchwilio er mwyn cynyddu gwytnwch.

Gwnaeth y Cynghorydd Gina Maddison sylwadau am y cysylltiadau posibl rhwng Canolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu a llyfrgelloedd, a dywedodd y Prif Weithredwr fod hyn yn un o'r posibiladau dan ystyriaeth.

Cydnabuwyd y problemau gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Crease, a siaradasant am bwysigrwydd sicrhau cwsmeriaid ynglŷn ag ymateb a chymryd camau gweithredu.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Allan Marshall.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod canfyddiadau Hunanasesiad Corfforaethol 2022/23 yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo; a
- (b) Bod y cyfleoedd ar gyfer gwella a nodwyd yn Hunanasesiad Corfforaethol 2022/23 yn cael eu cymeradwyo.

25. PERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN CYNLLUN Y CYNGOR 2022-23

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad monitro i adolygu'r cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn yn ôl blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a nodwyd ar gyfer 2022/23. Yr oedd hwn yn adroddiad cadarnhaol ar y cyfan – bu cynnydd da mewn 77% o weithgareddau, ac yr oedd 62% o ddangosyddion perfformiad wedi cyrraedd eu targedau neu wedi rhagori arnynt. Yn dilyn adborth blaenorol, adolygwyd yr adroddiad i roi mwy o eglurder ynglŷn â nodi meysydd i'w gwella. Yr oedd yr adroddiad eglurhaol, a oedd yn seiliedig ar eithriadau, yn amlygu chwe cham gweithredu yn weddill a 25 o ddangosyddion perfformiad na chyflawnwyd, ynghyd ag esboniadau, gyda rhai ohonynt yn cynnwys ffactorau allanol.

Ymatebodd Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg i gwestiwn gan y Cadeirydd ynglŷn â threfniadau adrodd, gan gynnwys adnewyddu Cynllun 5 mlynedd y Cyngor yn flynyddol. Aeth rhagddi i ddweud y gallai dyddiadau targed ar gyfer blaenoriaethau fod yn 12 mis neu yn y tymor hirach, gan gynnwys cerrig milltir lle bo'r angen, a byddai'n rhoi adborth i dîm Perfformiad i sicrhau bod targedau wedi eu diffinio'r glir yn y ddogfen.

Wrth ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Bernie Attridge, cadarnhawyd bod pob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystyried adroddiadau perfformiad chwarterol yn ymwneud â'u cylch gorchwyl, ac yr oeddynt yn gallu codi meysydd penodol i'w hadolygu ymhellach ar eu rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Dywedodd y Cadeirydd, er na ddylai'r pwyllgor hwn ddyblygu rôl Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill, dylid atgyfeirio meysydd pryder yn briodol.

Amlygodd y Cynghorydd David Healey sut oedd y Cynllun yn cyd-fynd â'r amcanion lles. Parthed Tlodi Plant, canmolodd y gyfradd gwblhau 100% o ran *'Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod plant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn gallu cael mynediad at fwyd, ymarfer corff a chynlluniau cyfoethogi yn ystod gwyliau'r haf*, a gofynnodd a oedd y cynnig wedi ei ymestyn i haf 2023.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod cynlluniau ar gael ac y byddai manylion mwy penodol yn cael eu rhannu. Awgrymodd y Cynghorydd Healey y dylid rhannu'r ymateb gyda'r holl Aelodau.

Gan nodi camau gweithredu yng nghylch gwaith pwyllgorau eraill, dywedodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson ei bod yn bwysig i'r Pwyllgor hwn gael trosolwg o dargedau na chyrrhaeddwyd / targedau a ymestynnwyd er mwyn ystyried y goblygiadau ariannol yn ystod y flwyddyn ac effaith ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Parthed is-flaenoriaeth Tai Cymdeithasol, gofynnodd am fwy o fanylion am ddangosyddion perfformiad yn ymwneud â chartrefi newydd y Cyngor, tai fforddiadwy a chartrefi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a oedd yn cael eu hadeiladu.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod amseroedd ymateb ynglŷn ag addasiadau ar gyfer pobl anabl wedi gwella dros y blynyddoedd, a gwnaed newidiadau i'r broses; fodd bynnag, yr oedd rhai materion etifeddiaeth, a oedd yn effeithio ar gynlluniau addasu mwy o faint, yn dylanwadu'n negyddol ar berfformiad. Parthed datblygiadau tai cymdeithasol, y targed cyffredinol oedd 50 uned y flwyddyn, fel yr adlewyrchwyd mewn adroddiadau strategol; fodd bynnag, yr oedd diffyg cynnydd cynllun yn ymwneud â phartneriaid wedi effeithio ar ganlyniadau perfformiad. Cyfeiriwyd at y posibilrwydd o gael cyllid ychwanegol i fodloni'r galw uwch am dai cymdeithasol. Tynnwyd sylw'r Aelodau at adroddiadau manwl diweddar i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai ynglŷn â'r materion hyn.

Diolchodd y Cynghorydd Bill Crease i'r swyddogion am yr adroddiad eglurhaol a oedd yn cynorthwyo'r Pwyllgor i ganolbwyntio ar ddata perthnasol. Cafodd ei sylwadau eu cymeradwyo gan y Cadeirydd.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Gina Maddison ac Allan Marshall.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r lefelau o gynnydd a hyder o ran cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun y Cyngor 2022/23;
- (b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi perfformiad cyffredinol yn ôl mesurau / dangosyddion perfformiad Cynllun y Cyngor 2022/23; a
- (c) Bod y Pwyllgor wedi cael sicrwydd drwy'r eglurhad a roddwyd ar gyfer y meysydd hynny sy'n tangyflawni.

26. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2024/25

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a Rheolwr Cyllid Corfforaethol y wybodaeth ddiweddaraf am y gofyniad cyllidebol ychwanegol ar gyfer 2024/25 cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet. Pwysleisiwyd yr her sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor wrth nodi datrysiadau i gytuno ar gyllideb gyfreithiol a chytbwys erbyn mis Mawrth 2024.

Yr oedd y rhagolygon diweddaedig yn dangos isafswm gofyniad cyllidebol o £32.386 miliwn ychwanegol o adnoddau refeniw ar gyfer 2024/25, gan gymryd i ystyriaeth risgiau parhaus fel y sefyllfa genedlaethol ddiweddaraf ar dâl sector cyhoeddus, yr effaith a amcangyfrifir o newidiadau hysbys i alw mewn gwasanaeth ac effeithiau chwyddiannol parhaus. Yr oedd yr adroddiad yn nodi newidiadau ers mis Gorffennaf, gan gynnwys risgiau parhaus a allai newid y gofyniad cyllidebol a'r gwaith a wnaed gan bortffolios dros yr haf yn dilyn gweithdai i Aelodau ar y gyllideb ym mis Gorffennaf. Yr oedd datrysiadau ariannu yn nodi'r canfyddiadau o adolygiadau portffolio, gan gynnwys pwysau costau ac ailystyried dewisiadau eithriedig ar gyfer 2023/24 – a byddai'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn ystyried y cyfan ym mis Hydref. Yr oedd crynodeb o'r sefyllfa gyffredinol ddiwygiedig ar y cam hwn yn dangos bod bwlch o £14.042 miliwn yn y gyllideb i osod cyllideb gyfreithiol a chytbwys. Wrth gydnabod yr her gyllidebol fawr ar gyfer 2024/25, parheid i gael sylwadau dros well setliad ledled Cymru.

Rhannodd y Cynghorydd Bernie Attridge bryderon am y canlyniad posibl yn absenoldeb cynnydd sylweddol yn y setliad gan Lywodraeth Cymru.

Wrth ymateb i ymholiad y Cynghorydd Alasdair Ibbotson ynglŷn â bod tanysgrifiad Stonewall ymysg y dewisiadau ychwanegol i'w hystyried, dywedodd y Prif Weithredwr y dylid cydnabod y byddai angen gwneud dewisiadau anodd a byddai angen adolygu pob agwedd o'r gyllideb.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai angen gwneud asesiad risg ar y rhestr ddewisiadau o 2023/24 i'w hailystyried, a hynny cyn iddi gael ei hystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, fel y cadarnhawyd gan y Rheolwr Cyllid Corfforaethol. Yn dilyn ymholiad ynglŷn â phwysau newydd mewn ysgolion, eglurodd y Prif Weithredwr fod hyn yn ofyniad o ganlyniad i ddull gweithredu mwy trylwyr gan Estyn parthed iechyd a diogelwch ar ystad ysgolion. Yn unol â chais, darparodd Rheolwr Cyllid Corfforaethol fanylion y gweithdai cyllideb a drefnwyd ar gyfer mis Hydref, a anogodd yr Aelodau i fod yn bresennol.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurder ynglŷn â chasgliadau'r adroddiad, ac ymatebodd y Cynghorydd Paul Johnson drwy siarad am ddull gweithredu'r Cyngor mewn perthynas â'r gyllideb a rôl yr Aelodau wrth wneud penderfyniadau anodd i ymateb i raddfa'r her ar gyfer 2024/25.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at strwythur darbodus y Cyngor, a'i hanes o gael ei ystyried fel Cyngor sy'n cael ei redeg yn dda yn ariannol. Fodd bynnag, byddai sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 2024/25 angen dull gweithredu gwahanol er mwyn creu rhaglen drawsnewid a fyddai'n datblygu sail gynaliadwy o sefydlogrwydd ariannol ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Byddai gwasanaethau

statudol yn parhau i gael eu darparu'n ddiogel drwy weithio drwy'r safonau hynny, ond byddai angen newidiadau anochel.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Bernie Attridge a'r Cadeirydd.

PENDERFYNWYD:

Ar ôl ystyried adroddiad Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2024/25, bod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oes materion penodol i'w hadrodd yn ôl i'r Cabinet pan fydd yn ystyried yr adroddiad ar 19 Medi.

27. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2023/24 (MIS 4) A MONITRO RHAGLEN GYFALAF 2023/24 (MIS 4)

Cyflwynodd y Rheolwyr Cyllid Strategol adroddiadau ar sefyllfa mis 4 2023/24 Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Rhaglen Gyfalaf, cyn i'r Cabinet eu hystyried.

Monitro'r Gyllideb Refeniw

O ran Cronfa'r Cyngor, y sefyllfa a ragwelwyd ar gyfer diwedd y flwyddyn oedd diffyg gweithredol o £2.644 miliwn (gan eithrio effaith y dyfarniad cyflog sydd i'w ddiwallu o arian wrth gefn), gyda balans o £4.043 miliwn yn y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn (ar ôl effaith amcangyfrifedig y dyfarniadau cyflog). Cadarnhawyd bod Cyllid Caledi a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) yn ystod 2022/23 wedi dod i ben bellach, a bod balans o £3.743 miliwn o'r arian wrth gefn hwnnw wedi ei gario ymlaen. Yr oedd y rhagolygon economaidd yn dal i fod yn heriol o ganlyniad i gynnydd chwyddiannol parhaus a chynnydd yn y galw ar wasanaethau. Rhoddwyd crynodeb o'r sefyllfa a ragwelir ar draws portffolios ac, yn unol â chais blaenorol, byddai adroddiadau monitro'r gyllideb yn y dyfodol yn cynnwys dadansoddiad o symudiadau.

Yr oedd trosolwg o risgiau yn cynnwys sefyllfa ddiweddaraf y tâl am dorri rheolau ailgylchu gwastraff, y galw cynyddol am wasanaethau digartrefedd a lleoliadau y tu allan i'r sir, ac adnewyddiad contract y fflyd, a oedd ar ddod. Yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol, amcangyfrifwyd y byddai 99% o arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd wedi eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn.

Parthed y Cyfrif Refeniw Tai, rhagwelwyd y bydd gwariant refeniw net yn ystod y flwyddyn £0.065 miliwn yn is na'r gyllideb, a rhagwelwyd y byddai'r balans terfynol yn £3.262 miliwn.

Gofynnodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson am ddyraniad y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a roddwyd o'r neilltu ar ffurf llinell cyllideb refeniw a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn gwneud cyfanswm o oddeutu £0.250 miliwn. Gofynnodd hefyd i gael gwybodaeth ar gyfer y cyfarfod nesaf am refeniw a godwyd o'r cynnydd mewn premiymau Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi ar gyfer y flwyddyn bresennol o'i gymharu â'r blynyddoedd diwethaf.

Cytunodd Rheolwr Cyllid Corfforaethol i gysylltu â Rheolwr Refeniw a Chaffael i ddarparu'r ail beth. Parthed yr ymholiad ynglŷn â'r CDLI, eglurwyd bod

trosglwyddiad y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a oedd yn weddill o 2022/23 wedi ei gynnwys yn y cronfeydd wrth gefn at raid a ddygwyd ymlaen i'r flwyddyn bresennol. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y dyraniad refeniw CDLI sydd ar ôl (oddeutu £110,000) yn dal i fod yng nghyllideb Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi ar gyfer 2023/24. Perodd hyn i'r Cynghorydd Sam Swash holi pam nad oedd y swm hwn wedi ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn i gynorthwyo'r sefyllfa gyffredinol. Cytunodd Rheolwr Cyllid Corfforaethol i ddarparu ymateb ar wahân.

Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd bod gwaith yn mynd rhagddo i adolygu unrhyw ddyraniadau nad oedd wedi eu gwario, heb ymrwymadau contract, y gellid eu rhoi mewn cronfeydd wrth gefn.

Yn dilyn pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Bernie Attridge ynglŷn â nifer y symudiadau mewn cyllidebau a gymeradwywyd ar y cam cynnar hwn, cytunodd y Cadeirydd ac awgrymu bod y gorwariant ar gyfer pecynnau iechyd meddwl yn cael ei gyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol i gael eglurhad pellach ynglŷn â sut yr amcangyfrifid costau.

Gwnaeth y Cynghorydd Christine Jones sylwadau am y pwysau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, a byddai'n ceisio cael ymateb llawn gan Reolwr y Gwasanaeth.

Wrth gyfeirio at amgylchiadau presennol y farchnad a chostau uchel cysylltiedig, siaradodd Rheolwr Cyllid Corfforaethol am y galwadau cyfnewidiol a chymhleth ar rai gwasanaethau.

Yn unol â chais y Cadeirydd, rhoddodd Rheolwr Cyllid Strategol eglurhad am ailddyrrannu prisiadau actiwaraid ar gyllidebau pensiynau, a byddai'n darparu trosolwg o'r newidiadau i gyllidebau a gymeradwywyd a ddangosir yn Nhabl 1. Mewn perthynas â'r tanwariant o £0.414 miliwn ar gyfer lleoliadau preswyl yng Ngwasanaethau Plant, byddai ymateb yn cael ei rannu hefyd am yr effaith posibl ar y gyllideb pan fydd grant LIC wedi dod i ben y tu hwnt i 2024/25.

Parthed y gorwariant yng ngwasanaeth Tai a Chymunedau, dywedodd y swyddogion y byddai'r adroddiad am ddirgartrefedd, sy'n cael ei baratoi gan y gwasanaeth, yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

Y Rhaglen Gyfalaf

Y rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2023/24 oedd £99.084 miliwn, gan ystyried yr holl newidiadau, gan gynnwys symiau a ddygwyd ymlaen. Yr oedd newidiadau yn ystod y cyfnod yn bennaf oherwydd dyraniad cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn. Yr oedd y sefyllfa derfynol a ragwelwyd yn £95.955 miliwn, a oedd yn gadael £3.129 miliwn o danwariant, yr argymhellwyd y dylid ei gario ymlaen er mwyn cwblhau cynlluniau yn 2024/25. Yn ystod y chwarter, nodwyd un dyraniad ychwanegol yn y rhaglen, fel y manylir yn yr adroddiad, ac ni nodwyd unrhyw arbedion. Yr oedd derbyniadau cyfalaf am y cyfnod yn gwneud cyfanswm o £0.651 miliwn, a oedd yn rhoi gwagedd diwygiedig a ragwelir yn y Rhaglen Gyfalaf ym mis 4 o £1.953 miliwn ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2023/24-2025/26, cyn realeiddio derbyniadau cyfalaf ychwanegol a/neu ffynonellau ariannu eraill. Yr oedd yr adroddiad hefyd yn

cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyda dangosyddion darbodus yn unol â'r gofyniad newydd.

Gan ystyried sefyllfa'r gyllideb, gofynnodd y Cyngorydd Bernie Attridge a ddylid gosod moratoriwm ar unrhyw wariant cyfalaf nad yw'n un brys, sydd heb ei ymrwymo eto.

Cadarnhaodd y swyddogion pob agwedd o wariant y Cyngor yn cael ei hadolygu a'i hystyried fesul achos.

Parthed y dyraniad ychwanegol o £0.055 miliwn ar gyfer offer cyfarfodydd hybrid yn Ystafell Delyn, gofynnodd y Cyngorydd Alasdair Ibbotson am ddadansoddiad o'r gost er mwyn gallu ystyried a oedd hyn yn rhoi gwerth am arian.

Rhoddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) eglurhad am y gwaith hwn a chytunodd i rannu gwybodaeth gyfrinachol yn ymwneud â'r contract gyda'r Aelodau yn unol â'r cais.

Cynigwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cadeirydd a'r Cyngorydd Bernie Attridge.

PENDERFYNWYD:

- (a) Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 (mis 4), y byddai'r Pwyllgor yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion penodol i'w codi gyda'r Cabinet;
- (b) Bod adroddiad ar wahân sy'n cael ei baratoi gan wasanaeth Tai a Chymunedau yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl; ac
- (b) Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Rhaglen Gyfalaf 2023/24 (mis 4), y byddai'r Pwyllgor yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion penodol i'w codi gyda'r Cabinet.

28. AELODAU'R WASG YN BRESENNOL

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 1pm)

.....
Y Cadeirydd